

Cwricwlwm Cymru

Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4

Ffurflen ymateb

i'r

ymgyngoriad

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol):

UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

[PEIDIWCH CYFIEITHU'R ENW HWN]

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylech anfon eich sylwadau erbyn **13 Mehefin 2014** i:

Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu llenwch y ffurflen yn electronig ac anfonwch hi drwy'r

e-bost: CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiynau sy'n berthnasol i bob cynnig

Sgiliau

Cwestiwn 1 – Un ffordd o gyflwyno'r datganiadau am ddisgwyliadau ychwanegol y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio yw eu hymgorffori'n uniongyrchol yn natganiadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh). Dyna a wnaed yn achos y Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a'r rhaglen astudio mathemateg.

Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 2 – Ffordd arall o'u cyflwyno yw gosod y sgiliau Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg i'w hasesu o un flwyddyn i'r llall fel adran ar wahân i ddilyn adran y FfLIRh.

Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Ystod

Cwestiwn 3 – Mae rhanddeiliaid wedi nodi, pe bai'r Ystod yn cael ei rhannu'n ddisgwyliadau ar gyfer blwyddyn benodol o'r Gorchmynion cwricwlwm cenedlaethol cyfredol, y gallai hyn arwain at gulhau'r cwricwlwm a gorfodi llwybr mwy penodol.

Cynigir ailenwi'r datganiadau Ystod presennol yn 'Ystod o brofiadau' i ddisgrifio amrywiaeth y cyd-destunau y dylai dysgwyr eu profi. Ydych chi'n cytuno?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Cynnydd/Dilyniant

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno bod cynnydd/dilyniant clir rhwng pob grŵp oedran a rhwng pob cyfnod allweddol ar gyfer y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio? Os nad oes, awgrymwch opsiynau posibl eraill.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno bod y disgwyliadau ar gyfer pob blwyddyn yn briodol? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch opsiynau posibl eraill.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

<p>Nodwn y sylwadau yn y ddogfen ymgynghorol; fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y gallai'r strwythur o ddisgwyliadau penodol iawn i bob blwyddyn ragdybio bod pob disgybl yn datblygu yn yr un modd ac ar yr un cyflymder. Perygl hynny yw creu 'diwylliant o fethu' ymhlith y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd y disgwyliadau yn unol â'r amserlen a nodir. Yn ogystal, mi allai arwain at fethu ag ymestyn disgyblion sy'n gweithio y tu hwnt i ddisgwyliadau.</p>
--

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno bod y datganiadau ar gyfer 'Ystod o brofiadau' yn briodol ac wedi'u geirio'n gywir? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch opsiynau posibl eraill.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno bod y sgiliau iawn yn cael eu pwysleisio? Ydych chi'n credu bod unrhyw sgiliau wedi'u hepgor?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno bod yr iaith a ddefnyddir yn y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio yn ddigon manwl? Os nad ydych, rhowch enghreifftiau penodol o'r newidiadau y mae angen eu gwneud.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 9 – Pa gymorth/hyfforddiant ychwanegol fydd ei angen ar ymarferwyr mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog er mwyn gweithredu'r rhaglenni astudio newydd a datblygu sgiliau llythrennedd deuol cryf? Esboniwch eich ateb yn llawnach a rhowch syniad o lefel yr hyfforddiant y bydd ei angen.

Mae diffyg arweiniad a hyfforddiant amserol o safon uchel wedi bod yn broblem, ac yn enwedig felly yn y Gymraeg. Nid yw'r Rhaglen Gymorth
--

Genedlaethol wedi gallu gwireddu ei haddewidion cychwynol yn ddigon cyson o ran y ddarpariaeth hon.

Yn sicr, mae sgiliau a thechnegau ychwanegol ynghlwm wrth ddatblygu llythrennedd (yn arbennig - ond rhifedd, i raddau hefyd) mewn dwy iaith yn gyfochrog. Mi fyddai'n fuddiol iawn pe byddai modd darparu hyfforddiant ar hyn yn ychwanegol at gyrsiau ynghylch datblygu sgiliau llythrennedd yn fwy cyffredinol.

Mi fydd yn eithriadol o bwysig i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff cymorth dysgu yn ogystal ag i athrawon. Mae hyn yn wir drwy'r cwricwlwm cyfan, ond yn arbennig o bwysig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ble mae dwysedd a dylanwad y staff cymorth dysgu gymaint yn uwch, a phan mae sylfeini llythrennedd a rhifedd yn cael eu gosod yn eu lle.

Rhaid sicrhau bod unrhyw hyfforddiant a ddarperir yn cwrdd â safonau uchel, a bod yr arbenigedd gofynnol gan y darparwyr. Mae prosesau sicrhau ansawdd (a sicrhau gwerth am arian cyhoeddus) yn hollbwysig, ac ni ddylid dibynnu'n llwyr ar ddatganiadau unigolion neu gwmnïau ynghylch eu cymhwysedd i ddarparu'n effeithiol.

Cwestiynau sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen

Athroniaeth y Cyfnod Sylfaen

Cwestiwn 10 – Cynigir llunio amrywiaeth o ddatganiadau am addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob Maes Dysgu i dynnu sylw at bwysigrwydd athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch opsiynau posibl eraill.

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Cytunwn mewn egwyddor ag ymestyn y Fframwaith i'r Cyfnod Sylfaen o'r cychwyn cyntaf a hynny ar sail anstatudol; credwn yn gryf bod angen gosod seiliau cadarn ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn y cyfnodau cynnar hyn. Gallai ymestyn y Fframwaith gynyddu'r pwyslais ar y sgiliau hyn, a'r cysondeb yn y ffordd y'u cyflwynir ledled Cymru mewn ffordd gadarnhaol dros ben.

Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch y ffordd y caiff hyn ei weithredu'n ymarferol, a hynny mewn perthynas ag ethos ac athroniaeth benodol y Cyfnod Sylfaen.

Rydym o'r farn bod y profion darllen a rhifedd wedi cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diystyru i raddau helaeth iawn yr ethos a'r athroniaeth hyn - yn enwedig felly profion Blwyddyn 2. Maent yn gosod disgwyliadau sy'n gwbl

groes i ddull arferol y plant o weithio ac o ymateb i dasgau. Mae hynny'n naturiol yn esgor ar bryderon ynghylch sut yn union y caiff y Fframwaith ei weithredu gyda phlant 3-7 oed, ac yn enwedig y rhai ieuengaf yn eu plith.

Cymeradwywn felly, mewn egwyddor, y bwriad i lunio amrywiaeth o ddatganiadau ynghylch addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar gyfer bob Maes Dysgu. Bydd angen i'r rhain fod yn glir iawn ynghylch y dulliau a'r ymagweddau sy'n gymeradwy, yn ogystal â'r dulliau nad ydynt yn cael eu hystyried yn arfer dda.

Meithrin

Cwestiwn 11 – Cynigir gwneud y sgiliau ar gyfer y cyfnod Meithrin, nad ydynt yn gysylltiedig â'r Maes Dysgu, yn FfLIRh anstatudol ar gyfer y grŵp oedran hwn. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig uchod?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Goblygiadau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Cwestiwn 12 – Er mwyn sicrhau bod lefelau cynnydd priodol yn cael eu cynnal ymhlith dysgwyr ag ADY (ar ôl ymgorffori'r sgiliau ar gyfer plant ifanc iawn – Meithrin – yn y FfLIRh), cynigir bod mân-addasiadau yn cael eu gwneud i ddatganiadau camau C a chamau B ar gyfer y cydran Rhifedd o'r FfLIRh. Ydych chi'n cytuno? Os nad ydych, awgrymwch opsiynau posibl eraill.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 13 – Yn y Meysydd Dysgu, rydym yn dilyn dull y FfLIRh drwy ddefnyddio datganiadau am ddisgwyliadau blynyddol ar draws y Cyfnod Sylfaen. Ai dyma'r dull iawn? Os nage, awgrymwch opsiwn posibl arall.

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae'r sylwadau a wnaethom uchod (cwestiwn 5) yr un mor berthnasol yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen – ac yn wir, yn fwy perthnasol byth, am fod cyflymer datblygiad yn amrywio'n fwy byth yn y cyfnodau cynnar hyn.

Byddai rhoi i'r plant ieuengaf hyn y teimlad o fethu yn creu'r risg o danseilio'u hyder yn eu gallu i ddysgu, a'u brwdfrydedd am addysg am weddill eu gyrfa ysgol. Mi allai fod yn eithriadol o ddinistriol.

Cytunwn yn llwyr bod angen rhyw fath o ffon fesur i allu gweld a yw plentyn yn datblygu ar gyflymder derbyniol, ac i adnabod unrhyw bryderon ynghylch ei ddatblygiad a hynny'n gynnar. Fodd bynnag, gwelwn beryglon yn y defnydd o ddatganiadau o ddisgwyliadau blynyddol. Hyd yn oed os yw athrawon a staff ysgol yn deall bwriad y disgwyliadau blynyddol, mi allai rhieni camddeall neu gamddehongli a rhoi pwysau amhriodol a dinistriol ar eu plant.

Cwestiwn 14 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig yn eich poeni nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.

Rhybudd digonol: pwyswn ar yr Adran Addysg a Sgiliau i sicrhau y bydd blwyddyn ysgol gyfan o rybudd cyn cyflwyno unrhyw newidiadau pellgyrhaeddol i'r system addysg; mae cyfnod o flwyddyn yn sicrhau digon o amser ar gyfer cyfathrebu clir a chyson, ar gyfer paratoi cynlluniau gwaith, ac ar gyfer darparu hyfforddiant o safon uchel i'r holl ymarferwyr perthnasol; heb hynny, nid yw newidiadau sylweddol yn debygol o gael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Biwrocratiaeth: mae gennym dystiolaeth o ysgolion yn ailwampio neu'n ailysgrifennu eu cynlluniau gwaith mewn modd beichus er mwyn ymgorffori a mapio holl ddisgwyliadau'r Fframwaith - a hynny ar draul rhoi sylw i'r profiadau mae'r plant yn eu cael ar lawr dosbarth. Rhaid ceisio cymedroli ar lefel y gwaith 'gweinyddol' biwrocraidd sy'n llyncu amser ac egni staff ysgol (yn athrawon ac yn arweinwyr yn arbennig), a sicrhau bod y newidiadau sydd ar y gweill mor rhwydd â phosib i'w cyflwyno er mwyn cael yr effaith fwyaf posib, a fwyaf cadarnhaol ar y dysgu a'r addysgu. Mae angen i'r arweiniad a'r hyfforddiant fod yn amserol ac yn gwbl glir er mwyn creu cysondeb, ac er mwyn arbed ysgolion rhag torri eu cwysi eu hunain cyn bod yr arweiniad swyddogol yn cyrraedd.

Cyd-destun ystyrllon: rydym yn derbyn adroddiadau cyson gan aelodau, yn enwedig yn y sector uwchradd, bod angen iddynt ymgorffori elfennau o lythrennedd a rhifedd i'w gwersi; mae hynny'n gwbl dderbyniol mewn gwersi, pynciau a chwricwlwm ble mae hynny'n synhwyrol ac yn berthnasol (e.e. Daearyddiaeth a Hanes). Fodd bynnag, mae'n bwysig derbyn nad oes modd ychwanegu llythrennedd a rhifedd i bob pwnc ar draws y cwricwlwm, neu o leiaf ddim ar yr un lefel, ac yn sicr ddim ym mhob gwersi. Mae Cerddoriaeth yn un enghraifft sy'n codi'n gyson - gydag athrawon yn cael eu gorfodi i greu

tasgau ysgrifennu estynedig, er mwyn gallu dangos eu bod yn datblygu sgiliau llythrennedd, pan nad yw'r Rhaglen Astudio yn galw am hynny.

Mae'n bosib iawn mai camddehongli, neu gor-frwdfrydedd yw'r enghreifftiau hyn ar ran ambell i arweinydd ysgol. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at yr angen am arweiniad gwbl ddiawms ar y materion hyn, a negeseuon clir a chyson gan yr Adran Addysg a Sgiliau, y consortia rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol.

Nodwn – a chroesawn - y frawddeg yn y ddogfen ymgynghorol “Dim ond mewn perthynas â'r sgiliau rhifedd y gellir eu datblygu'n bwrpasol mewn cyd-destun ystyrlon o fewn y pynciau 'craidd' ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 y caiff cyfnod y FfLIRh ei ymestyn i gynnwys y blynnyddoedd hynny.”

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: